# Papur y Bwrdd

13 Gorffennaf 2017

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur:** | **Cynllun Menter Cyfoeth Naturiol Cymru 2017 – 2022** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **NRW B B 31.17** |
| **Noddir y Papur gan:** | **Tim Jones** |
| **Cyflwynir y Papur gan:** | **Peter Garson** |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Craffu** |
| **Argymhelliad:** | Ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Menter Cyfoeth Naturiol Cymru 2017 – 2022. |

| | |
|---|---|
| Effaith: Noder - efallai nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Ystyried y tymor hir:**<br>Mae prosiectau menter yn gynaliadwy yn economaidd ac yn darparu buddiannau yn y tymor hir i'r amgylchedd a'r economi.<br><br>**Defnyddio dull integredig:**<br>Mae prosiectau menter yn elfen hanfodol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn yr ystad a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:**<br>Ymgysylltiad cymunedol mewn prosiectau menter.<br><br>**Gweithio mewn modd cydweithrediadol:**<br>Gweithio gyda'r sector preifat a'r sector gwirfoddol a defnyddio mecanweithiau gwahanol lle bo'n briodol.<br><br>**Atal problemau rhag codi:** |

| | |
|---|---|
| | Cyfraniad cadarnhaol i’r gwaith o leihau newid yn yr hinsawdd. |

**Pwnc**

1. Mae Cynllun Menter Cyfoeth Naturiol Cymru 2017 – 2022 yn amlinellu'r fframwaith i fodloni'r cyfarwyddyd a roddwyd yn Llythyr Cylch Gwaith y Gweinidogion 2017/18.

**Cefndir**

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi mandad i Cyfoeth Naturiol Cymru, drwy ei llythyron cylch gwaith blynyddol, i “*ddatblygu Cynllun Menter gyda cherrig milltir ar gyfer creu incwm sy'n cyd-fynd ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan weithio gyda phartneriaid a chymunedau*”. Mae Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyfrannu'n weithredol at ddatblygu’r cynllun hwn.

3. Yr amserlen ar gyfer y Cynllun Menter yw 1 Ebrill 2017 hyd at 31 Mawrth 2022, sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Corfforaethol.

**Asesu**

4. Mae'r cynllun yn nodi dull egwyddorol tuag at ddatblygu gweithgareddau masnachol. Mae'n sicrhau y bydd targedau ariannol yn cael eu gosod yng nghyd-destun mesurau perfformiad sydd wedi'u halinio i gyflenwi’r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r cynllun yn gosod yr ymagwedd tuag at ddatblygu gweithgareddau masnachol sydd eisoes yn bodoli a gweithgareddau masnachol newydd, ond bydd cynllunio busnes pellach yn cael ei wneud o fewn pob gweithgaredd.

5. Mae gweithgareddau masnachol presennol Cyfoeth Naturiol Cymru yn dod o dan y portffolios canlynol:

- Cynhyrchu pren
- Datblygu ynni
- Incwm ystad arall
- Hamdden a thwristiaeth
- Gwasanaethau dadansoddi

6. Mae'r cynllun yn darparu fframwaith (a ddangoswyd yn Atodiad 1) a fydd yn helpu i sicrhau y gall y rhaglenni hyn ac unrhyw weithgareddau newydd ddatblygu mewn ffordd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni Amcanion Llesiant Cyfoeth Naturiol Cymru ac sy'n rhoi egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith, heb golli y ffocws masnachol.

## Llywodraethu

7. Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu gyda mewnbwn gan Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn benodol gan is-grŵp Fenter y Bwrdd. Bydd yr is-grŵp hwn yn monitro gweithrediad y cynllun a bydd adroddiadau ynghylch cynnydd yn cael eu darparu bob chwarter.

8. Bydd strwythurau llywodraethu sydd eisoes yn bodoli, megis Bwrdd y Rhaglen Cyflenwi Ynni a Fforwm Rheoli'r Ystad, yn parhau i fonitro ac adrodd ar bortffolios menter penodol hyd nes y bydd y Cynllun Sefydliadol wedi'i gwblhau ac y bydd unrhyw newidiadau o ran llywodraethu wedi cael eu cyflwyno.

9. Yn dilyn profiadau diweddar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r hyn a ddysgwyd gan archwiliadau mewnol, bydd trefniadau llywodraethu cymesur yn cael eu rhoi ar waith er mwyn darparu craffu effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys cyfranogiad Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y prosiectau gwerth uchel ac eraill sy'n arloesol, neu o bosibl yn ddadleuol.

## Argymhelliad/Argymhellion

- Bod y Bwrdd yn cymeradwyo Cynllun Menter 2017 – 2022 a'r trefniadau llywodraethu cysylltiedig.
- Bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi yn ddwyieithog ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a gwahoddir y Bwrdd i awgrymu sut y dylid hyrwyddo'r cynllun.

## Risgiau Allweddol

| Risg | Rheolaeth |
|---|---|
| **Mae cyhoeddi Cynllun Menter Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain at ymholiadau menter ac ni all Cyfoeth Naturiol Cymru ymdrin â nhw oherwydd diffyg proses ddiffiniedig ar gyfer ymgysylltu â chleientiaid neu ddiffyg adnodd i ymdrin ag ymholiadau.** | Gweithio gyda thimau Cyfathrebu a Gofal Cwsmer i sicrhau bod proses/adnodd ar waith i fodloni anghenion busnes ynghylch cyhoeddi |
| **Mae gwybodaeth fasnachol yn cael ei gwneud ar gael i'r cyhoedd mewn camgymeriad.** | Sicrhau ansawdd a chymeradwyo gan Bennaeth Gweithrediadau Masnachol cyn cyhoeddi |

## Goblygiadau Ariannol

10. Dim sydd wedi cyrraedd cam cymeradwyo’r Bwrdd.

**Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb**

11. Bydd hyn yn derbyn sylw cyn cyhoeddi.

**Sicrwydd Risg**

12. Ddim yn berthnasol.